------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 21 Ebrill 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(258)v5

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys**
**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fentrau i fynd i'r afael â'r nifer frawychus o danau glaswellt a gaiff eu cynnau yn fwriadol? EAQ(4)0548(PS)

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y diweddaraf am weithredu Dedd Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (30 munud)**

**4 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg: Strategaeth Digidol yn Gyntaf (30 munud)**

**5 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Mannau Glanach, Mwy Diogel ar gyfer**

**ein Cymunedau (30 munud)**

**6 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru (30 munud)**

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y tair eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:**

**7 Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) (5 munud)**

**NDM3736 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2015.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015
Memorandwm Esboniadol *[Saesneg yn unig]*
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – *Dim pwyntiau adrodd*

**8 Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) (5 munud)**

**NDM3737 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2015.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) 2015
Memorandwm Esboniadol *[Saesneg yn unig]*
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – *Dim pwyntiau adrodd*

**9 Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefnau Adolygu) (Cymru) (5 munud)**

**NDM3738 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefn Adolygu) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mawrth 2015.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefn Adolygu) (Cymru) 2015
Memorandwm Esboniadol *[Saesneg yn unig]*
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - *Dim pwyntiau adrodd*

**10 Dadl ar Wasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys Cymru (60 munud)**

**NDM3739 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi:

a) bod gwasanaeth clinigol newydd yn cael ei gyflwyno i Gymru, sef Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys, a

b) bod y gwasanaeth yn sicrhau y caiff cleifion mewn ardaloedd anghysbell a gwledig fynediad cyflym i ymgynghorydd mewn meddygaeth gofal dwys neu ofal brys.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Yn is-bwynt b), dileu 'cyflym' a rhoi 'gwell' yn ei le.

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod mynediad at wasanaethau brys yng Nghymru wedi dirywio dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i israddio ysbytai, perfformiad gwasanaeth

ambiwlans gwael a'r toriadau mwyaf erioed i gyllideb y GIG.

**Gwelliant 3 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at fethiant parhaus y gwasanaeth ambiwlans i gyrraedd ei dargedau ar gyfer amseroedd ymateb a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar wasanaethau brys yng Nghymru.

**Gwelliant 4 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ehangu'r gronfa gofal canolraddol i atal galwadau diangen ar y system gofal brys.

**Gwelliant 5 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r cyhoeddiad yng Nghyllideb Llywodraeth y DU ar gyfer 2015 y bydd Ymddiriedolaeth Ambiwlans Awyr Cymru yn cael cyllid gwerth £1.5 miliwn o ddirwyon LIBOR i helpu i ariannu cyfarpar newydd a hyfforddiant.

**Gwelliant 6 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am sefydlu Canolfan Gofal Brys yn Sir Drefaldwyn i ddod â gofal yn nes at ein cymunedau a lleihau'r pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys yn Wrecsam a'r Amwythig, oherwydd y nifer cynyddol o gleifion sy'n teithio'n bell i gael mynediad at ofal o ganlyniad i ddiffyg cynllunio cydgysylltiedig rhwng byrddau iechyd.

**Gwelliant 7 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am fwy o fuddsoddi mewn ysbytai bwthyn a gofal yn y gymuned, i helpu i sicrhau gofal o ansawdd uchel yn y gymuned er mwyn lleihau'r pwysau ar wasanaethau brys.

**11 Cyfnod pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 22 Ebrill 2015

# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad a gyflwynwyd ar 16 Ebrill 2015 i'w hateb ar 21 Ebrill 2015

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Alun Ffred Jones (Arfon)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am oblygiadau'r gostyngiad yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)2218(FM)**W**

2. **Elin Jones (Ceredigion)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)2208(FM)**W**

3. **David Rees (Aberafan)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am raglen drafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn? OAQ(4)2215(FM)

4. **William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ystyriaeth Llywodraeth Cymru o adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig, 'An Economic Strategy for Wales'? OAQ(4)2222(FM)

5. **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effeithlonrwydd ynni stoc dai Cymru? OAQ(4)2221(FM)**W**

6. **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gau ysgolion yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(4)2213(FM)

**7. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am reoleiddio gwasanaethau bysys yng Nghymru? OAQ(4)2212(FM)

**8. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa astudiaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal i ddiweddaru canfyddiadau Adroddiad Holtham 2010? OAQ(4)2210(FM)**W**

**9. Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer cryfhau twf economaidd yn ne-ddwyrain Cymru?  OAQ(4)2206(FM)

**10. Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am safonau ysgolion yn Nhorfaen? OAQ(4)2219(FM)

**11. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn 2015 i wella amseroedd aros y GIG? OAQ(4)2207(FM)

**12. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gofal plant? OAQ(4)2223(FM)

**13. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gamau gorfodi yn erbyn tipio anghyfreithlon yng Nghymru? OAQ(4)2217(FM)

**14. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol adeiladau eglwysi a chapeli yng Nghymru? OAQ(4)2205(FM)

**15. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fanteision aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd i Gymru? OAQ(4)2214(FM)

# Eitem 2

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn]**

**Dydd Mawrth 28 Ebrill 2015 a dydd Mercher 29 Ebrill 2015**
**Dydd Mawrth 5 Mai 2015 a dydd Mercher 6 Mai 2015**
**Dydd Mawrth 12 Mai 2015 a dydd Mercher 13 Mai 2015**

---

**Dydd Mawrth 28 Ebrill 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Diweddariad ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol ychwanegol yng Nghymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Diweddariad ar Her Ysgolion Cymru (30 munud)
- Trefn ystyried gwelliannau'r Bil Cynllunio (Cymru) (5 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2013-14 (60 munud)
- Dadl ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol (60 munud)

**Dydd Mercher 29 Ebrill 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Ran 2 yr ymchwiliad i arferion gorau o ran y gyllideb – Cynllunio a gweithredu gweithdrefnau cyllidebol newydd (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Suzy Davies (Gorllewin De Cymru) (30 munud) – *Gohiriwyd tan 13 Mai 2015*

**Dydd Mawrth 5 Mai 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Cyflwyno Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (60 munud)
- Dadl Cyfnod 3 ar y Bil Cynllunio (Cymru) (180 munud)

**Dydd Mercher 6 Mai 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 12 Mai 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Nodi'r Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop – gweithio gyda a chefnogi ein cymuned Lluoedd Arfog heddiw (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Bathodynnau Glas (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Llysgenhadon Cyllid yr UE (30 munud)
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2015 (15 munud)
- Cyflwyno Bil yr Amgylchedd (Cymru) (60 munud)
- Dadl: Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd yr Afu (60 munud)

**Dydd Mercher 13 Mai 2015**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar yr ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Suzy Davies (Gorllewin De Cymru) (30 munud) – *Gohiriwyd o 29 Ebrill 2015 (30 munud)*